**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Mark Drakeford AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

21 Chwefror 2019

Annwyl Mark

**Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru:**

- **Dehongli Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin**
- **Craffu ar reoliadau sy'n deillio o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror 2019.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar am yr ymatebion i'n gohebiaeth a gawsom hefyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 7 Chwefror yn ymwneud â'r gwaith craffu ar reoliadau o dan Ddeddf 2018 a'r rheoliadau penodol ar hawliau bridwyr planhigion, maetheg, yr amgylchedd a bywyd gwyllt.

Rydym yn parhau yn anfodlon â'r esboniadau a gawsom mewn ymateb i'n gohebiaeth wreiddiol.

Yn eich llythyr, rydych yn dweud, "a policy choice is not necessarily a substantive change to the policy itself" a "The question is what degree of policy change constitutes a new policy, and we do not consider that threshold to be met".

Rydym yn parhau i gredu bod newid mewn polisi yn bolisi newydd. Gall graddau'r newid mewn polisi a goblygiadau'r newid hwnnw bennu'r dull

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

deddfwriaethol, ond mae'n rhaid i'r man cychwyn gydnabod y bu newid mewn polisi.

Unwaith y gwneir hyn, mae'r cwestiwn dilys yn codi ynghylch sut y dylai'r newid mewn polisi hwnnw gael ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag effeithlonrwydd gweinyddol. Mewn nifer o achosion, bydd y newid mewn polisi yn fân ei natur. Fodd bynnag, mae'n rhaid, fel man cychwyn, nodi'r newid mewn polisi. Fel Pwyllgor, nid ydym yn fodlon bod y prawf a nodwyd gennych wedi cael ei gymhwyso.

Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn nodi na fydd y pwerau yn cael eu defnyddio i weithredu polisi newydd mewn meysydd datganoledig; prif ddiben defnyddio pwerau o'r fath fydd 'effeithlonrwydd gweinyddol'.

Credwn fod ein dull ni yn deillio o ddehongliad mwy cywir o ystyr cyffredin y geiriau yn y Cytundeb Rhynglywodraethol.

Ym mis Tachwedd 2018 diddymodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y *Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018* yn seiliedig ar gynnwys y Cytundeb Rhynglywodraethol.

Yn ystod y ddadl pan ddiddymwyd Deddf 2018, gwnaethoch ddweud:

> "Mae'r cytundeb y daethom iddo wedi sicrhau nad oes yr un cyfrifoldeb datganoledig wedi gadael y Cynulliad hwn. Mae meysydd sydd eisoes wedi'u datganoli yn parhau i fod wedi'u datganoli, ac mae'r mesurau diogelwch angenrheidiol ar waith i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn wir. Mae datganoli wedi'i ymwreiddio yn y cytundeb rhynglywodraethol, nid ei wanhau ganddo, a'i danseilio ganddo fel y byddai Bil Ymadael yr UE, fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, yn sicr wedi ei wneud."

Mae hyn yn dod â mi at lythyr 7 Chwefror 2019 gan Lywodraeth Cymru a'r esboniad pam nad yw'r datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C yn manylu pa rannau o Offerynnau Statudol Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn cydsynio iddynt. Ein pryder ni yw nad ydym yn cael yr esboniadau na'r rhesymau a gyflwynir gan y dull a fabwysiadwyd.

Felly, roedd yn syndod darllen y datganiad a ganlyn:

> "Logically, it follows that the priority for analysis of competence is whether an SI is within competence or not, at least in part. Issues of competence are often not clear-cut. The devolved and non-devolved elements of ân SI are, in many cases, so intertwined that it can become artificial to draw rigorous distinctions between them. Taking a proportionate approach that focuses

> on the impact of the SI means the exact boundary of devolution within the SI is not of immediate relevance, as long as we are confident that it falls within competence to an extent."

Nid yw'n glir i ni sut y gall Gweinidogion Cymru roi cydsyniad i Weinidogion y DU sy'n gweithredu mewn meysydd datganoledig heb wybod yn union beth y rhoddir cydsyniad iddo, pwynt a godwyd gennym yn gyntaf yn ein llythyr gwreiddiol i Julie James AC, cyn-Arweinydd y Tŷ ar 15 Tachwedd 2018, ac rydym wedi'i drafod yn ddiweddar mewn cyfarfod gyda'r Cwnsler Cyffredinol, y Gweinidog Cyllid, a'r Trefnydd a swyddogion.

Mae hyn yn arbennig o bwysig o gofio eich dehongliad o'r Cytundeb Rhynglywodraethol a'n sylw ninnau, fel yr ydym yn ei bwysleisio yn ein hadroddiad *Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd 2018: Adroddiad cynnydd*, fod effaith dull Llywodraeth Cymru mewn rhai achosion wedi cyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol.

Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn bod hyn yn wir ym mharagraff olaf ei llythyr ar 7 Chwefror 2109 ynghylch y rheoliadau ar gyfer bridwyr planhigion:

> "Mae Swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Swyddfa Cymru am y **cyfyngiadau anfwriadol** (ein pwyslais) ar gymhwysedd y Cynulliad sydd wedi'u creu gan bwerau a roddwyd mewn OSau sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE ac mewn deddfwriaeth arall sy'n rhoi effaith i baragraffau 8, 10 ac 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion yn edrych ar y mater yn fanwl ac yn ystyried sut orau i'w ddatrys. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am hynt y trafodaethau hynny." *[Ein pwyslais ni].*

Yn barchus, mae'n ymddangos bod y paragraff hwn yn mynd yn groes i'ch sylwadau y cyfeiriwyd atynt uchod.

Mae'r paragraff hwn hefyd yn amlygu ein pryder: efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn cydsynio i reoliadau heb ystyried oblygiadau'r rheoliadau yn llawn i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol; sy'n golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddatrys y canlyniadau *ar ôl* rhoi cydsyniad, heb unrhyw warant y bydd canlyniad cadarnhaol; a bod y Cynulliad Cenedlaethol fel deddfwrfa yn cael ei anwybyddu mewn penderfyniadau ynghylch ei bwerau deddfu ei hun.

Nid ydym am ychwanegu'n ddiangen at y baich gwaith sydd eisoes yn cael ei roi ar y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa ar hyn o bryd, na gwaethygu'r pwysau amser a'r

materion capasiti yr ydym i gyd yn eu hwynebu.  Fodd bynnag, fel yr wyf yn siŵr y byddwch yn ei werthfawrogi, ni all hynny fod yn ystyriaeth berthnasol o ran dull y Pwyllgor hwn ar gyfer craffu; ein cyfrifoldeb ni i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw cyflawni ein swyddogaethau'n ddiwyd, i graffu ar ddeddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn unol â hynny.

Byddaf yn anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid, a’r Trefnydd, a’r Cwnsler Cyffredinol.

Yn gywir

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.